

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

23 IONAWR 2020

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Iau, 23 Ionawr 2020 (**Gwrandawriad 1 yn dechrau am 9.10am**).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: David Cox ac Adele Davies-Cooke

Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:

Arweinydd y Tîm Trwyddedu (Gemma Potter), Cyfreithiwr (Tim Dillon) a Swyddog y Gwasanaethau Democraidd (Sharon Thomas)

Yr ymgeisydd

1. YMDDIHEURIADAU

Dim.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

4. GWRANDAWRIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd aelodau'r panel. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawriad, gan gynnwys sut y byddai'r cais yn cael ei benderfynu.

5. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT/CERBYD HACNI (AR Y CYD)

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried a phenderfynu ar gais am Drwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Mewn ymateb i gwestiynau gan y panel, rhoddodd yr ymgeisydd eglurhad ar y rhybuddiad gan yr Heddlu oedd wedi ymddangos ar ei daflen collfarn Datgeliad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhoddodd y cefndir a arweiniodd at y digwyddiad a dywedodd ei fod wedi cymryd y camau i atal materion rhag mynd ymhellach. Dywedodd nad oedd ganddo unrhyw gollfarnau

blaenorol a'i fod wedi mynd i orsaf yr Heddlu yn wirfoddol i roi gwybod am y digwyddiad. Nid oedd wedi datgelu'r rhybuddiad ar ei gais oherwydd nad oedd wedi sylweddoli fod y drafodaeth anffurfiol a gynhaliwyd yng ngorsaf yr Heddlu mewn gwirionedd wedi arwain at y rhybuddiad.

Yn ystod cwestiynau gan y Cyfreithiwr, rhoddodd yr ymgeisydd eglurhad pellach ar y digwyddiadau yn arwain at ei gyhuddiad, ac roedd yn edifarhau'r camau a gymerodd. Eglurodd fod geiriau penodol yn ei sylwadau ysgrifenedig yn adlewyrchu'r ffaith y bu nifer o dystion i'r digwyddiad. Yn dilyn cwestiynu pellach, nid oedd yn cofio arwyddo dogfennaeth yng nghorsaf yr Heddlu mewn perthynas â'r rhybuddiad gan ei fod yn teimlo'n llawn cywilydd, gan nad oedd wedi bod yn y sefyllfa hon o'r blaen. Tra'n mynegi edifeirwch am y digwyddiad, roedd yn cydnabod nad oedd hyn wedi'i adlewyrchu yn ei sylwadau ysgrifenedig ond dywedodd ei fod yn difaru beth oedd wedi digwydd yn yr unig achos hwn.

Pan ofynnodd y Cadeirydd a oedd yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau pellach, roedd yr ymgeisydd yn ailadrodd ei edifeirwch a rhoddodd sicrwydd am y ffordd briodol o ddelio gydag unrhyw anawsterau os byddai'n cael y drwydded. Diolchodd i'r panel am ystyried ei gais.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi'u gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra'r oedd y panel yn dod i benderfyniad.

5.1 Penderfynu ar y Cais

I bennu'r cais, rhoddodd y panel ystyriaeth i gynrychioliadau llafar ac ysgrifenedig, ynghyd â chanllaw y Cyngor ar drin euogfarnau.

Wrth ystyried y wybodaeth a ddangosir ar GDG yr ymgeisydd, yn arbennig yr amser sydd wedi mynd heibio ac edifeirwch yr ymgeisydd am yr un digwyddiad hwn, teimlai'r panel - o bwysu a mesur - ei fod yn unigolyn addas a phriodol i fod yn berchen ar Drwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/ Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailgynnull y cyfarfod.

5.2 Penderfyniad

Hysbysodd y Cadeirydd fod y panel wedi cytuno, ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed, rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat / Cerbyd Hacni i'r ymgeisydd am dair blynedd.

Dywedodd y Cadeirydd fod y panel wedi cytuno fod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gael trwydded, a'i fod wedi bod yn onest – nid yn naif – yn ei ymddygiad blaenorol. Atgoffodd y Cyfreithiwr yr ymgeisydd ei fod angen datgelu unrhyw arestiadau/euogfarnau/rhybuddiad ac ati yn uniongyrchol i'r Awdurdod Trwyddedu.

PENDERFYNWYD:

Bod yr ymgeisydd - yn ôl pwysau tebygolrwydd - yn unigolyn cymwys ac addas i gynnal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chaniatáu'r Drwydded iddo am dair blynedd.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.10am a daeth i ben am 10.15am)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

23 IONAWR 2020

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Iau, 23 Ionawr 2020 (**Gwrandawriad 2 yn dechrau am 10.20am**)

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: David Cox ac Adele Davies-Cooke

Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:

Arweinydd y Tîm Trwyddedu (Gemma Potter), Cyfreithiwr (Tim Dillon) a Swyddog y Gwasanaethau Democraidd (Sharon Thomas)

Yr ymgeisydd

1. YMDDIHEURIADAU

Dim.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan yr ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

4. GWRANDAWRIAD A PHENDERFYNIAD AR Y CAIS

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd aelodau'r panel. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawriad, gan gynnwys sut y byddai'r cais yn cael ei benderfynu.

5. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT/CERBYD HACNI (AR Y CYD)

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried a phenderfynu ar gais am Drwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Wrth ymateb i gwestiynau gan y panel, eglurodd yr ymgeisydd yr amgylchiadau y tu ôl i'w ddwy euogfarn flaenorol, oedd wedi arwain ar y dedfrydau a ymddangosodd ar daflen euogfarnau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr Heddlu. Mynegodd edifeirwch am y troseddau a ddigwyddodd nifer o flynyddoedd yn ôl pan oedd yn llawer ieuengach, a dywedodd ei fod yn parhau i

deimlo cywilydd am ei ymddygiad ar yr adeg. O ran y drosedd gyntaf, dywedodd nad oedd ei weithredoedd yn fwriadol a'i fod wedi ymddiheuro yn y Llys.

Yn dilyn cwestiynau gan y Cyfreithiwr, rhoddodd yr ymgeisydd ragor o fanylion am y digwyddiad oedd yn ymwneud a'i euogfarnau, gan egluro nad oedd hyn yn rhan o batrwm ymddygiad rheolaidd. Disgrifiodd ei ymateb i swyddogion yr Heddlu a arweiniodd at ei arestio, a dywedodd ei fod yn edifarhau ei weithredoedd a dylai fod wedi cerdded i ffwrdd. I gefnogi ei gais, dywedodd nad oedd erioed wedi gyrru o dan ddylanwad alcohol ac aeth i fanylder ar yr ystod o waith yr oedd wedi'u cyflawni mewn nifer o adeiladau cyhoeddus.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon bod yr holl gwestiynau perthnasol wedi'u gofyn, gofynnodd i'r ymgeisydd ac Arweinydd y Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra'r oedd y panel yn dod i benderfyniad.

5.1 Penderfynu ar y Cais

Wrth benderfynu ar y cais, ystyriodd y panel yr holl sylwadau ysgrifenedig a llafar, a rhoddwyd sylw penodol ar ganllawiau'r Cyngor ar ddelio ag euogfarnau, yn benodol yr hyn yn adran 4 mewn perthynas â'r pwys a roddir i euogfarnau am rwystro neu ddefnyddio ymddygiad treisgar tuag at swyddog yr Heddlu.

Wrth ystyried edifeirwch yr ymgeisydd am ei ymddygiad ar amser ei euogfarnau a'r amser sydd wedi mynd heibio, ystyriodd y panel fod mynd oddi wrth y canllawiau yn briodol yn yr achos hwn. Teimlodd y Panel – ar y cyfan - bod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/ Cerbyd Hacni (ar y cyd) am dair blynedd.

Gwahoddwyd Arweinydd y Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailgynnull y cyfarfod.

5.2 Penderfyniad

Hysbysodd y Cadeirydd fod y panel wedi cytuno, ar ôl ystyried y sylwadau a wnaed, rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat / Cerbyd Hacni i'r ymgeisydd am dair blynedd. Eglurodd, wrth ystyried y canllawiau yn adrannau 4.19 a 4.20, cytunodd y panel i ganiatáu'r drwydded oherwydd hyd yr amser aeth heibio ers yr euogfarn ddiwethaf.

PENDERFYNWYD:

Bod yr ymgeisydd - yn ôl pwysau tebygolrwydd - yn unigolyn cymwys ac addas i gynnal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chaniatáu'r Drwydded iddo am dair blynedd.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.20am a daeth i ben am 11.05am)